

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 YN FLAENOROL) - DYDD GWENER, 3 HYDREF 2025

COFNOD PENDERFYNIAD CYFARFOD EITHRIADOL O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFINO CYMUNEDAU, AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFINO PWNC 3 YN GYNT) A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD GWENER, 3 HYDREF 2025 11:30

Presennol

Y Cyngorydd JPD Blundell – Cadeirydd

H T Bennett
MJ Williams

O Clatworthy

GC Haines

Presennol – O Bell

N Clarke
I Williams

C Davies
T Wood

W J Kendall

J E Pratt

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins a/ac G Walter

Gwahoddedigion:

Councillor Neelo Farr
Councillor Paul Davies

Aelod Cabinet dros Adfywiad, Datblygiad Economaidd a Thai
Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

Janine Nightingale
Nicola Lewis

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Arweinydd Tîm Prosiectau Adfywio

Swyddogion:

Kelly Watson
Meryl Lawrence
Jessica Mclellan

Swyddog Monitro
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Swyddog Craffu

Datganiadau o Ddiddordeb

Y Cynghorwyr Tim Wood a Steven Easterbrook – Personol – Eitem 3 – Masnachwyr Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

119. Galw i Mewn Benderfyniad y Cabinet i Mewn - Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Y Penderfyniad a wnaed	Cynghorodd y Swyddog Craffu, yn unol ag Adran 7.23 o Gyfansoddiad y Cyngor, fod pedwar Aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac un Cadeirydd Craffu, wedi gofyn am Alw i Mewn benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 23 Medi 2025 mewn perthynas â Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd wedi cefnogi'r Alwad i Mewn i siarad am y rhesymau amdani ac fe wnaethant gyfeirio at y rhesymau dros yr Alwad i Mewn, fel y manylir yn yr Hysbysiad o Alwad i Mewn (Atodiad B). Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau ac yna cafwyd trafodaethau manwl rhwng yr Aelodau, Aelodau'r Cabinet, a Swyddogion. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu presenoldeb ac fe wnaethant adael y cyfarfod ar ôl y bleidlais. Gan ystyried a oedd yr Aelodau'n fodlon â'r ymatebion a dderbyniwyd, gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor a oeddent yn dymuno: a) Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'r rhesymau a'r sail resymegol dros y cais; neu b) Benderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet. <u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn archwiliad o'r penderfyniad a thrafodaethau manwl gydag Aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion a wahoddwyd, penderfynodd y Pwyllgor argymhell bod y penderfyniad yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w ailystyried am y rhesymau a nodir yn y Ffurflen Hysbysiad o Alwad i Mewn yn Atodiad B ac am y rhesymau a nodir isod:
------------------------	---

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 YN FLAENOROL) - DYDD GWENER, 3 HYDREF 2025

	a. Nid oes gan y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) amserlen glir, sy'n nodi i fasnachwyr a'r cyhoedd y gwahanol gamau a'r estyniadau posibl a gymerir yn ystod y Gorchymyn 18 mis. b. Mae'r ETRO yn canolbwyntio ar ymestyn amseroedd llwytho a dadlwytho, ond mae diffyg ystyriaeth o ran cydraddoldeb mynediad i ganol y dref, gan gynnwys parcio i ddeiliaid bathodyn glas a phwyslais annigonol ar yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb. c. Mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei fesur, i gofnodi effeithiau'r newidiadau a wnaed, y mecanwaith ar gyfer mesur, a'r hyn fydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. d. Dylid cynnwys mwy o dystiolaeth a gwybodaeth fanwl yn cyfiawnhau'r rheswm dros benderfyniadau yn adroddiadau'r Cabinet. e. Mae angen eglurhad, gan nad oes awydd i ailagor Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn llwyr i draffig, fod Stryd Adare, Stryd Caroline a Stryd Wyndham wedi'u heithrio o'r ETRO.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	3 Hydref 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:58